**CCJS10 Comisiynydd Safonau**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Y Pwyllgor Busnes | Business Committee**

**Rhannu swydd cadeirydd Pwyllgor | Committee chair job sharing**

Ymateb gan: Comisiynydd Safonau | Evidence from: Standards Commissioner

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS

Y Llywydd a Chadeirydd y Pwyllgor Busnes

6 Tachwedd 2024

Annwyl Llywydd,

**Rhannu swydd cadeirydd pwyllgor**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 22 Hydref 20205 yn gofyn am fy marn ar effaith y cynigion ynghylch rhannu swyddi ar y ddyletswydd i ddatgan buddiannau ac yn fwy cyffredinol.

**Datgan buddiannau**

Byddai'n rhaid i unrhyw gŵyn bod Cadeirydd sy'n rhannu swydd wedi torri Rheol Sefydlog 17.24A gael ei ystyried ar sail y ffeithiau.

O dan Reol Sefydlog 17.24A mae ar bob Aelod unigol ddyletswydd i ddatgan, ac mae'n anodd meddwl am amgylchiadau pan fyddai cŵyn o'r fath yn ddilys.

Fodd bynnag, oherwydd y berthynas waith agos a fyddai'n anochel rhwng y rhai sy'n rhannu swydd, rydw i o'r farn bod risg y gallai rhai feddwl y dylai'r rhai sy'n rhannu'r rôl cadeirydd pwyllgor ddatgan nid yn unig eu buddiannau eu hunain ond hefyd fuddiannau hysbys y cadeirydd arall. Yn amlwg byddai'n afresymol disgwyl datganiad o fuddiannau nad ydynt yn hysbys i'r cadeirydd sy'n rhannu swydd.

Er mwyn bod yn agored ac yn dryloyw, efallai y bydd y Pwyllgor am ystyried a ddylid gosod dyletswydd ar y sawl sy'n rhannu swydd i ddatgan buddiannau hysbys yr unigolyn arall sy'n rhannu'r swydd wrth gadeirio cyfarfod. Ni fyddai

darpariaeth o’r fath yn annhebyg i’r ddyletswydd bresennol i ddatgan buddiannau hysbys aelodau’r teulu.

Os ystyrir bod dull o'r fath yn briodol, dylid rhoi ystyriaeth i osod dyletswydd ar y rhai sy'n rhannu swydd i hysbysu ei gilydd am fuddiannau a fyddai'n dod o dan Reol Sefydlog 17.24A.  Er y gellid gwneud hynny drwy brotocol rhwng y rhai sy’n rhannu swydd, byddai’n fwy cadarn ac agored pe bai’n cael ei gynnwys yn y Rheolau Sefydlog.

## Y cynigion yn fwy cyffredinol

Nid yw'n ymddangos bod yr un o'r trefniadau arfaethedig yn debygol o arwain at unrhyw broblemau i'r Comisiynydd Safonau nac i'r broses gwyno. Yn gywir,



**Douglas Bain CBE TD Y Comisiynydd Safonau/Standards Commissioner**